OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 479 (Cy.20)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned Diwygio (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *24 Chwefror 2000* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mawrth 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan adrannau 126(4) 128(1) a pharagraff 2(a) o Atodlen 7 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) a phob pŵ er arall sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cyswllt hwnnw ac a freinir bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned Diwygio (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2000.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1996" yw Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 1996(**3**).

(3) I Gymru'n unig mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys.

### Diwygio Rheoliadau 1996

**2.** Yn rheoliad 3 o Reoliadau 1996, ar ôl paragraff (2) mewnosodir y paragraff canlynol —

> "(2A) In the event of the term of office of every member of a Council whose district is situated in Wales expiring on the same date, the term of office of all members appointed in consequence thereof shall be settled in accordance with the same provisions as are applied by paragraph (2) above in relation to first appointments.".

(**1**) 1977 c. 49; section 126(4) was amended by the National Health Service and Community Care Act 1990 (c. 19) ("the 1990 Act"), section 65(2); Section 128(1) as amended by section 26(2) (g) and (i) of the 1990 Act is cited for the definitions of "prescribed" and "regulations".

(**2**) The functions of the Secretary of State for Wales under section 126(4) and paragraph 2 of Schedule 7 to the National Health Service Act 1977 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(**3**) S.I. 1996/640. Relevant amending instrument is 1997/2289.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*Dafydd Elis Thomas*

24 Chwefror 2000

Y Llywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**4**) 1998 c. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Effaith y Rheoliadau hyn yw diwygio Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 1996 ("Rheoliadau 1996") drwy ddarparu y bydd rheoliad 3(2) o Reoliadau 1996 yn gymwys os bydd y cyfnodau y bydd pob aelod o Gyngor yn eu swyddi yn dod i ben ar yr un dyddiad. Bydd y sefyllfa hon yn codi ym mhob Cyngor yng Nghymru ar 31 Mawrth 2000.

Penderfynir ar y cyfnodau y bydd aelodau sydd wedi'u penodi i'r Cynghorau yn eu swyddi o ganlyniad i'r digwyddiad hwn fel petaent yn benodiadau newydd wrth sefydlu cyngor newydd. Oherwydd hyn, bydd cyfnodau rhai aelodau yn gorgyffwrdd â chyfnodau eraill fel a ddarperir gan reoliad 3(2).